


Her Allwedd Buddy



Beth yw Her Allwedd Buddy?

Gêm yw Her Allwedd Buddy lle mae disgyblion yn datrys posau mathemateg i ddod o hyd i ddarnau o allwedd. Gall y dosbarth cyfan ei chwarae gyda'i gilydd.

Ar gyfer pob ateb cywir, gall yr athro ddatgelu lleoliad un darn o'r allwedd sydd wedi'i guddio yn yr ystafell ddosbarth. Mae deg darn i'r allwedd, fel jig-so.

Ar ôl dod o hyd i'r holl ddarnau, gallwch ddefnyddio'r allwedd i agor y drws hud er mwyn i Buddy ddod drwyddo i ymweld â'r ysgol.

Gallwch amseru'r her a'i chwarae ar draws y grŵp blwyddyn neu'r ysgol, gan nodi'r amseroedd ar fwrdd gwyn. Yr enillwyr fydd y dosbarth sy'n rhoi'r allwedd at ei gilydd ac yn dod o hyd i Buddy gyflymaf.

Sut mae codi arian


Gall y disgyblion gael eu noddi gan deulu a ffrindiau i gymryd rhan yn Her Allwedd Buddy. Gall teuluoedd godi arian drwy JustGiving neu drwy ddefnyddio ffurflenni noddi a thalu drwy ddull dewisol eich ysgol. Os oes angen cymorth arnoch chi i sefydlu tudalen JustGiving neu ParentPay eich ysgol, dilynwch y cyfarwyddiadau ar dudalen adnoddau Diwrnod y Rhif, neu anfon e-bost atom ni yn numberday@nspcc.org.uk

Yr hyn sydd ei angen arnoch chi:



- Copi papur o'r allwedd wedi'i dorri'n ddeg darn - un darn ar gyfer pob cwestiwn
- Taflen i ddisgyblion ar gyfer pob bwrdd, neu yn ôl yr angen
- Pensiliau lliw
- Tudalen JustGiving ar gyfer yr ysgol neu ffurflen noddi wedi'i hargraffu ar gyfer pob disgybl/teulu, er mwyn i rieni allu talu arian i mewn gan ddefnyddio ParentPay neu opsiwn talu'r ysgol.
- Amserydd (opsiynol)
- Buddy (bydd ysgolion sydd wedi cofrestru i godi arian drwy Her Allwedd Buddy yn cael hwn drwy'r post)

Sut mae chwarae:

1. Argraffwch lun o'r allwedd a'i dorri'n ddeg darn.
2. Cuddiwch y darnau o amgylch yr ystafell ddosbarth.
3. Rhowch Buddy yn y lleoliad o'ch dewis yn yr ysgol, fel y maes chwarae, y llyfrgell neu rywle allan o olwg y disgyblion.
4. Argraffwch daflenni'r disgyblion a'u dosbarthu. Dewiswch un set o gwestiynau yn seiliedig ar oed a/neu allu'r plant.
5. Darllenwch y stori i osod yr olygfa.
6. Dechreuwch yr amserydd (os ydych yn ei ddefnyddio).
7. Rhaid i'r disgyblion weithio gyda'i gilydd i ddatrys y posau a'r cwestiynau. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ddarllen pob cwestiwn i'r plant wrth i chi weithio drwy'r her.
8. Rhowch amser i'r plant feddwl am ateb i bob cwestiwn. Gofynnwch i'r disgyblion godi eu llaw os ydyn nhw'n meddwl eu bod yn gwybod yr ateb, a dewis un ohonyn nhw i rannu'r ateb â'r dosbarth. Os byddan nhw'n rhoi'r ateb cywir, cyfeiriwch nhw at y darn o'r allwedd sydd wedi'i guddio. Gallwch roi cliwiau neu ddefnyddio'r dechneg boeth ac oer.
9. Ar ôl i'r disgyblion ateb deg cwestiwn yn gywir, dod o hyd i'r holl ddarnau a rhoi'r allwedd at ei gilydd, bydd y dosbarth wedi llwyddo a gall y disgyblion gwrdd â Buddy.
10. Stopiwch yr amserydd (os ydych chi'n ei ddefnyddio) a chofnodi faint o amser a gymerodd y dosbarth i gwblhau Her Allwedd Buddy.



Her Allwedd Buddy



Stori

Mae Buddy yn byw mewn coedwig hudolus lle mae wedi bod yn ymweld ag ysgolion drwy ddrws arbennig mewn coeden hud. Mae Buddy eisiau ymweld ag ysgol rhoi enw eich ysgol ond mae'r drws wedi'i gloi ac mae problem gyda'r allwedd. Pan anfonodd Buddy yr allwedd atoch chi, cafodd ei dorri'n ddeg darn!

Allwch chi helpu Buddy drwy ateb y cwestiynau i ddatrys y cliwiau a dod o hyd i ddarnau o'r allwedd o amgylch eich ystafell ddosbarth? Ar ôl rhoi'r allwedd at ei gilydd, byddwch yn gallu agor y drws hud i Buddy a dod o hyd iddo yn eich ysgol. Mae angen i chi geisio cwrdd â Buddy cyn y dosbarthiadau eraill. Pob lwc!

Atebion

Taflen i ddisgyblion (A)


- 4
- 5
- 11
- 100
- 8
- 0
- 11
- 10
- 8
10. 1= Coch, 2= Melyn, 3 = Gwyrdd, 4 = Glas, 5= Piws

Taflen i ddisgyblion (B)


- 9
- 40c
- 2
- 15
- 10
- 0
- 25
- 1= Coch, 2= Melyn, 3 = Gwyrdd, 4 = Glas, 5= Piws
- 14kg

10.

F	G	C	T	D	N	R	B	Y
R	M	H	P	E	D	W	A	R
D	A	U	B	G	M	Y	U	C
B	T	R	T	E	S	T	I	A
H	H	N	Y	L	M	H	E	R
I	E	I	A	N	W	E	N	T
L	M	C	H	W	E	C	H	B
M	A	H	M	O	M	A	N	S
T	T	T	L	P	I	L	A	Y
W	E	R	N	U	N	A	W	G
P	G	I	E	M	R	H	I	A
O	N	O	N	P	N	E	A	I
P	G	S	A	I	T	H	D	S



Her Allwedd Buddy






Taflen i ddisgyblion (A)

Yn rhai o'r cwestiynau, rydyn ni wedi defnyddio lluniau o Buddy yn lle rhifau. Allwch chi ddatrys y rhain?


1.  =

2.  =

- Mae gan Ben 5 cath ac mae gan Nala 6 cath, faint o gathod sydd ganddyn nhw yn gyfan gwbl?
- Pa rif ddylai ddod ar ddiwedd y patrwm rhifau hwn? 50, 60, 70, 80, 90...?
- Mae gan Abbie  ac mae'n rhoi  i ffwrdd. Faint sydd gan Abbie ar ôl?
- Gyda beth mae rhifau tabl 10 bob amser yn gorffen? 10, 0 neu 5?
- Pa un o'r rhifau hyn sydd ddim yn rhif eilaidd? 2, 4, 6, 8, 11
- Pa rif sy'n cael ei adio at 10 i wneud 20?
- Os oes gen i 9 balŵn ac mae 1 ohonyn nhw'n chwythu i ffwrdd, faint sydd gen i ar ôl?
- Allwch chi ddefnyddio'r cod i liwio'r peli mae Buddy yn eu jyglo?
1= Coch, 2=Melyn, 3= Gwyrdd, 4=Glas, 5= Porffor





Her Allwedd Buddy



Taflen i ddisgyblion (B)

Yn rhai o'r cwestiynau, rydyn ni wedi defnyddio lluniau o Buddy yn lle rhifau. Allwch chi ddatrys y rhain?

1.  ×  =

2. Mae  yn costio 15c. Os ydw i'n prynu  ac yn talu gyda darn £1, faint o newid fydda i'n ei gael?

3. Beth yw'r rhif coll? $20 \times ? = 40$

4. Beth yw'r ateb pan fyddwch chi'n adio $7+3+5=?$


5. Pa rif sy'n dod nesaf yn y patrwm rhifau hwn?
2, 4, 6, 8

6. Gyda beth mae rhifau tabl 10 bob amser yn gorffen?
10, 0 neu 5?

7. Beth yw 30 tynnu 5?

8. Allwch chi ddefnyddio'r cod i liwio'r peli mae Buddy yn eu jyglo?

1= Coch, 2=Melyn, 3= Gwyrdd, 4=Glas, 5= Porffor



9. Edrychwch ar y llun o Buddy yn jyglo ei hoff bethau crwn. Os yw'r bêl-droed yn pwyso 2kg, y lolipop yn pwyso 3kg, y bêl-fasged yn pwyso 3kg, yr haul yn pwyso 1kg a'r afal yn pwyso 5kg, beth yw cyfanswm pwysau hoff bethau crwn Buddy?






10. Chwiliwch am y geiriau hyn yn y chwilair:

Mathemateg	Pedwar	Wyth
Un	Pump	Naw
Chwech	Deg	

F	G	C	T	D	N	R	B	Y
R	M	H	P	E	D	W	A	R
D	A	U	B	G	M	Y	U	C
B	T	R	T	E	S	T	I	A
H	H	N	Y	L	M	H	E	R
I	E	I	A	N	W	E	N	T
L	M	C	H	W	E	C	H	B
M	A	H	M	O	M	A	N	S
T	T	T	L	P	I	L	A	Y
W	E	R	N	U	N	A	W	G
P	G	I	E	M	R	H	I	A
O	N	O	N	P	N	E	A	I
P	G	S	A	I	T	H	D	S

Her Allwedd Buddy



Diwrnod
Rhif

NSPCC

©NSPCC 2025. Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant. Elusen gofrestrdig yng Nghymru a Lloegr 216401, Yr Alban SC037717 a Jersey 384. Lluniau gan Jamie Nash. J20255114.

 **OXFORD**
UNIVERSITY PRESS

Mae'r Diwrnod Rhifau'n cael ei gefnogi gan Oxford University Press, dan arweiniad yr NSPCC.